



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Help a chyngor os ydych chi'n dyst

Ble i gael help neu gyngor os ydych chi'n dyst mewn ymchwiliad.

Cyhoeddwyd gyntaf: 11 October 2022

Diweddariad olaf: 19 February 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/help-a-chyngor/help-a-chyngor-os-ydych-chin-dyst-neu-os-codoch-chi-bryder-gyda-ni> am y fersiwn diweddaraf.

Fel arfer, byddai tyst sy'n ymwneud â'n hachosion yn rhywun sy'n defnyddio gofal a chymorth, yn gydweithiwr i'r person yr ymchwilir iddo, neu'n aelod o deulu rhywun sy'n defnyddio gofal a chymorth.

Efallai bod un o'n swyddogion achos wedi gofyn i chi fod yn dyst i ni helpu gyda'n tystiolaeth achos. Weithiau, rydyn ni'n gofyn i bobl sydd wedi rhoi datganiad tyst i ni ddod i wrandawriad addasrwydd i ymarfer. Rydyn ni'n deall bod gweithredu fel tyst yn gallu achosi straen. Efallai eich bod yn poeni am yr hyn y byddwch yn ei ddweud yn eich cyfweiliad tyst, a fyddwch yn gallu ateb y cwestiynau, neu sut y gallai bod yn dyst effeithio ar eich perthnasoedd personol neu waith.

Rydyn ni eisiau helpu i'w gwneud hi'n haws i chi ddeall y broses a beth fydd angen i chi ei wneud.

Bydd y swyddog achos yn esbonio'r broses i chi, ond efallai y byddwch yn teimlo eich bod eisiau rhywfaint o gefnogaeth ychwanegol.

Ble i gael help

Victim Support

Rydyn ni'n deall os ydych chi'n mynd drwy gyfnod anodd ac efallai eich bod yn teimlo'n ansicr am y broses. Gallwch ffonio [Victim Support](#) i gael help. Maen nhw'n **wasanaeth annibynnol** sy'n gallu rhoi **cymorth emosiynol cyfrinachol** i chi, neu **gymorth a chyngor ymarferol**. Daw'r cyngor gan dîm sydd wedi'i hyfforddi'n arbennig.

Ffôn: 0808 196 8638 (ar gael o 8am tan 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

E-bost: SocialCareWales@victimsupport.org.uk (ar gael rhwng 8am a 6pm, dydd Llun i ddydd Gwener)

Mae galwadau i'r rhif hwn **am ddim**. Os hoffech help mewn iaith arall yn ystod eich cysylltiad â Chymorth i Ddiodefwyr, byddant yn trefnu ac yn talu cyfieithydd i helpu.

Gallwch ffonio unrhyw bryd yn ystod y broses am unrhyw beth sy'n eich poeni chi am yr ymchwiliad. Gallwch ofyn am **help a chyngor** neu **siarad am eich teimladau**. Pan fydd yr ymchwiliad drosodd, gall Cymorth i Ddiodefwyr eich helpu i symud ymlaen.

Ni fyddant yn gwybod dim am eich datganiad tyst, na'r sawl yr ymchwilir iddo oni bai eich bod yn dweud wrthynt. Does dim rhaid i chi roi eich enw nac unrhyw wybodaeth bersonol os nad ydych chi eisiau gwneud hynny. Ni fyddant yn rhannu eich gwybodaeth oni bai eich bod yn gofyn iddynt wneud hynny.

Victim Support

Galw Victim Support ar 0808 196 8638

[Dysgwch fwy am gael cymorth os gofynnwyd i chi fod yn dyst.](#)